

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 1af 2020 drwy gyfrwng Zoom oherwydd cyfyngiadau argyfwng Covid-19. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Dewi Pritchard, Eifion Davies, Maldwyn Jones, Iolo Evans, Meilir Jones, Gwenda Morris, Gwynedd Jones a'r clerch.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Eilir Rowlands ar yr anrhydedd o gael ei urddo i'r Orsedd ac am ei ymddangosiad ar y rhaglen Prynghawn Da yn ddiweddar.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Bethan Thomas, Eilir Rowlands a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Nid oedd unrhyw fater i'w godi.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol.

i) Dwr Cymru – datganiad yn ein cynghori o'i bwriad i wneud gwaith i warchod Capel Coffa Celyn.

ii) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Gwahoddiad i'r Cyngor gymryd rhan yn eu 'Prosiect Mynwentydd Byw Eryri'. Cytunwyd i ddatgan diddordeb y Cyngor yn y cynllun.

iii) Cyngor Cymuned Llanllyfni - Cais am gefnogaeth i'r syniad o godi tal am fynediad i'r Wyddf. Cytunwyd i ddatgan cefnogaeth y Cyngor.

iv) Ystâd Rhiwlas - cais i osod sgaffaldiau ym mynwent Llanfor er mwyn gwneud gwaith adnewyddu i Elland House. Nid oedd gan y cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad i'r cais a chytunodd Rita Jones a Alwyn Jones i gyfarfod gyda'r asiant os byddai angen.

v) Cyfoeth Naturiol Cymru - Gwahoddiad i lansiad ar-lein prosiect LIFE Afon Dyfrdwy CNC.

vi) Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynllun adnoddau coedwigoedd Llanfor a Celyn.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

C20/0421/04/LL:- Uned wyau buarth gydag ystafell pacio. Cae Pant, Llandderfel.

C20/0566/04/DT:- Estyniad ochr deulawr gyda linc unllawr. Ysgubor Fawr, Cefnddwysarn.

vi) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)

Cyflwynodd y clerch yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

b) Praesept.

Derbyniwyd ail randal y Praesept o £4,500.

c) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd cais ariannol gan Marie Curie ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i aros tan y cyfarfod nesaf i'w drafod.

vii) Materion lleol.

a) Llyn Caereini.

Daeth i sylw'r Cyngor fod Llyn Caereini yn cael ei alw'n Llyn Sarnau mewn hysbyseb ar y we. Cafwyd cadarnhad fod y Cyng. Elwyn Edwards wedi sicrhau fod y perchennog am ei gywiro.

b) Ymgynghoriad Adran 115, Stryd Fawr, Y Bala.

Mynegwyd pryder fod rhai busnesau ar y stryd fawr yn gosod byrddau a chadeiriau ar y palmant ac roedd prinder llefydd parcio. Roedd y Cyngor yn gefnogol iawn i'r busnesau lleol a oedd yn gwneud addasiadau yn ystod y cyfnod heriol yma ond roedd angen gwarchod y safleoedd parcio er mwyn i'r trigolion lleol fynychu'r holl siopau at y stryd fawr.

c) Derbyniwyd y cwynion isod i sylw Cyngor Gwynedd:-

i) Wal gyferbyn a Neuadd Mynach – roedd nifer o gerrig yn rhydd yn y wal ac angen sylw.

ii) Gofynnwyd i'r clerics wneud ymholiadau be oedd y rheolau ynglŷn â caravanette's yn aros dros nos mewn cilfannau gan fod nifer yn gwneud hyn ger Llyn Celyn.

iii) Dwr yn llifo ar draws y A494, cyn Braich Ddu - ers i'r coed cael eu clirio ar yr ochr uchaf roedd dipyn o ddwr yn llifo ar draws y ffordd a gyda'r gaeaf o'n blaenau roedd pryder y byddai'n rhewi ac yn achosi damwain.

iv) Wal o flaen lloches bws Cefnddwysarn ar y A494 - cerrig yn rhydd yn y wal a chwyn yn tyfu arni.

v) Wal ar yr A494 odisa Ty Nant, Cefnddwysarn wedi cael ei hitio gan gerbyd ac angen sylw.

vi) Coed ar ochr yr A4212 ger Llyn Celyn - roedd toriadau llynedd wedi gwella gwelededd ar y ffordd ond erbyn hyn roedd y coed wedi dechrau tyfu'n ôl yn wyllt ac angen sylw.

vii) Gwrych angen ei dorri ar y ffordd gefn o Landerfel i Ffridd y Llyn.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Hydref
6ed am 7.30 y.h. drwy gyfrwng “Zoom”**